

**CYNGOR TREF RHUTHUN**  
**RUTHIN TOWN COUNCIL**



Cofnodion [DRAFFT] cyfarfod y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhalwyd drwy ffyrf hybrid  
**nos Lun 10 o Hydref 2022 am 7:45p.m**

**YN** Cynghorwyr Anne Roberts (Cadeirydd), Stephen Beach, Oliver Bradley-Hughes,  
**BRESENNOL:** Peter Daniels, Christine Ellis, Gavin Harris, Menna Jones, Rachel Ryland a Lisa  
Thomas  
Siân Clark – Clerc y Dref a Marian Rees - Cyfieithydd

**32. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Christine Ellis a Mike van der Eijk

**33. DATGAN BUDDIANNAU**

Dim.

**34. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 20 o Fedi 2022 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir yn amodol ar gywiro enw'r Cynghorydd Thomas yn y rhestr presenoldeb.

**35. MATERION YN CODI**

*Eitem 24: Bae i Fysus Moethus Ddisgyn a Chodi Teithwyr Tu Allan i'r Hen Lys* – Cafwyd cadarnhad gan y Clerc bod cais wedi'i wneud i Gyngor Sir Ddinbych am newid y tri man parcio presennol i'w hail-neilltuo fel bae i fysus moethus rhwng 10.00a.m a 4.00p.m bob dydd drwy gydol y flwyddyn. Roedd y broses fel arfer yn cymryd hyd at 6 mis, ond roedd y Cyngor Sir wedi dweud bod ôl-groniad o geisiadau ar hyn o bryd a bod y prosesu yn debygol o gymryd mwy o amser.

*Eitem 26: Basgedi Crog y Dref* – Cadarnhaodd y Clerc fod trefniadau wedi eu gwneud ar gyfer y diwrnod canlynol i waredu'r blodau yn y basgedi crog..

**36. CWNINGAR Y CASTELL**

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod y gwaith ar y wal ar hyd Cwningar y Castell a ddifrodwyd yn parhau i fod ar y targed i'w gwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2022.

**PENDERFYNWYD:** Nododd yr Aelodau'r adroddiad cynnydd a ddarparwyd.

**37. CROESO CYNNES**

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i nodyn briffio a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â'r fenter 'Croeso Cynnes'. Roedd y fenter yn canolbwyntio ar nodi lleoedd mewn cymunedau lleol gan ddarparu amgylchedd diogel a chynnes i bobl yn ystod y dydd a fyddai'n helpu i leihau cost gwresogi eu cartrefi eu hunain yn ystod y gaeaf yma. Roedd y Cyngor Sir eisoes wedi nodi manau gan gynnwys llyfrgelloedd a manau cymunedol. Roedd sefydliadau Trydydd Sector a Chymunedol ynghyd a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned hefyd yn cael eu annogi i gefnogi'r cynllun. Fel isafswm byddai angen i'r gofod ddarparu lle sych a chynnes gyda te a choffi a chyfleusterau toiled. Roedd Llywodraeth Cymru yn cwblhau ei chynnig grant, gyda'r disgwyliad y byddai Cynghorau Sir yn cael eu cyfarwyddo i drosglwyddo'r arian i'r Trydydd Sector a'r Grwpiau Cymunedol oedd yn rhan o'r fenter.

Mynegodd yr Aelodau'r farn bod y Cyngor Tref, gyda'r Hen Lys fel lleoliad, yn gefnogol i fenter Croeso Cynnes cymaint â phosibl. Nodwyd y byddai angen i weithgareddau'r Hen Lys a staff y Cyngor Tref barhau heb amhariad. Cydnabuwyd y byddai lleoliadau eraill yn cael eu nodi gan sefydliadau eraill yn Rhuthun ac roedd yn allweddol bod y cyhoedd yn ymwybodol o ba leoliadau

sydd ar agor a ble, gan gynnwys dros y penwythnos.

**PENDERFYNWYD:** *Bod Cyngor Tref Rhuthun yn ymrwymo i fenter Croeso Cynnes gan gynnig Yr Hen Lys fel lleoliad i'r fenter.*

### **38. Tîm TREF TACLUS**

Parhaodd y Tîm Tref Taclus i gyfarfod rhwng 11.00a.m - 12.30p.m ar y dydd Sadwrn olaf bob mis, gyda grŵp craidd o wirfoddolwyr, gyda paned ar gael ar ddiwedd y sesiwn. Byddai gwirfoddolwyr ychwanegol yn cael eu croesawu. Roedd offer codi sbwriel Tref Taclus wedi cael eu defnyddio gan unigolion a sefydliadau eraill yn ôl yr angen hefyd. Cytunwyd ar gais i brynu codwyr sbwriel ychwanegol, cylchoedd ac eitemau amrywiol eraill.

**PENDERFYNWYD:**

### **39. PLANNU COED**

Derbyniodd yr Aelodau drosolwg o'r cynnydd mewn perthynas â gweithgareddau a chyfleoedd plannu coed, yn enwedig mewn perthynas â Chanopi Jiwbil'r Frenhines, gan ystyried bod yr amserlen wedi'i hymestyn.

**PENDERFYNWYD:**

### **40. ASESIAD O FEINCIAU'R DREF A'R BEINCIAU NEWYDD**

Darparodd y Cynghorydd Gavin Harris fap darluniadol o feinciau yn Rhuthun a oedd yn nodi'r mathau o feinciau a rhoddodd ddarlun cyflwr rhyngweithiol o'r fainc. Nodwyd bod y meinciau yn Nhrem y Foel a Ffordd Corwen mewn cyflwr gwael a bod angen eu hadnewyddu neu eu trwsio. Awgrymwyd defnyddio'r ddwy fainc sy'n cael eu storio ar hyn o bryd yn y ddau leoliad. Roedd y fainc goffa ar Ffordd Gyswllt Ogleddol Rhuthun, a roddwyd gan Jones Bros er cof am Mike Roberts, wedi'i lleoli. Byddai'r meinciau newydd eraill y cytunwyd arnynt yn cael eu lleoli yn fuan.

**PENDERFYNWYD:** *Nododd yr Aelodau yr adroddiad diweddar a ddarparwyd a gofynnwyd am ailosod y meinciau yn Nhrem y Foel a Ffordd Corwen fel blaenoriaeth.*

### **41. PARATOADAU NADOLIG**

Ystyriodd yr Aelodau faterion yn ymwneud â pharatoadau'r Nadolig gan gynnwys:

- Motiffau Goleuadau Nadolig: Yn hanesydol, roedd y goleuadau wedi eu goleuo rhwng 4.00p.m. – 12.00p.m yn ddyddiol (8 awr). Wth ystyried costau ynni a lleihau carbon, cynigiwyd y dylid lleihau'r amser y câi'r motiffau eu goleuo o 8 awr i 6 awr (4.00p.m – 10.00p.m).
- Goleuadau'r Goeden Nadolig: Cynigiwyd bod amseriad y goleuadau ar y Goeden Nadolig yn aros fel yn y blynyddoedd blaenorol, oddeutu wyth awr y dydd.
- Nawdd y Goeden Nadolig a'r Goeden Nadolig: Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau fod Clogau wedi cysylltu y bore hwnnw â chynnig nawdd ar gyfer cost y Goeden Nadolig a chodi/datgymalu goleuadau'r Goeden Nadolig. Cynigiwyd bod y cynnig nawdd yn cael ei dderbyn ac i'r Clerc drafod ymhellach â nhw.
- Groto Siôn Corn: Rhannwyd darluniau gan y Cyng Gavin Harris o'r Groto Siôn Corn arfaethedig, yn Yr Hen Lys gan gynnwys lapio'r byrddau arddangos mewn finyl tymhorol. Diolchodd yr aelodau yn gynnes i'r Cyng Harris am yr ymchwil a'r gwaith. Byddai Groto Siôn Corn ar gael i grwpiau cymunedol o'r penwythnos olaf ym mis Tachwedd 2022.

**PENDERFYNWYD:**

- (i) Goleuo Motiffau Goleuadau Nadolig am chwe awr bob dydd rhwng 4.00p.m. a 10.00p.m.
- (ii) Goleuadau Coeden Nadolig i'w cynnau, fel yn y flwyddyn flaenorol, am oddeutu wyth awr y dydd.
- (iii) Derbyn a symud ymlaen gan y Clerc i gynnig nawdd gan Clogau o'r Goeden Nadolig a Goleuadau'r Goeden Nadolig (codi a datgymalu).
- (iv) Derbyn y cynigion ar gyfer Groto Siôn Corn yn Yr Hen Lys a chytuno i brynu'r papur lapio finyl tymhorol.

### **42. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai nos Lun, 14 o Dachwedd am 7.30pm y cynhelir y cyfarfod nesaf.*